Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros

**Darlun cymharol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3293A2022

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Adroddiad manwl

Maint y rhestr aros 5

Atgyfeiriadau a galw 12

Adnoddau a chapasiti 16

Modelau cleifion allanol 22

Atodiadau

Atodiad 1 – Modelu senarios 27

# Crynodeb

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn ategu ein hadroddiad cenedlaethol ar wasanaethau orthopedig ac yn rhoi dadansoddiad ychwanegol o'r rhestr aros orthopedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Mae'r adroddiad yn cyflwyno ystod o ddata i lywio trafodaeth a throsolwg o'r heriau presennol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o adfer gwasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd. Mae'n cynnwys nifer o awgrymiadau a chwestiynau i aelodau'r bwrdd i lywio dadl, ac i gael sicrwydd bod camau i wella yn cael yr effaith a ddymunir.

2 **Nodyn ynglŷn â'r data:** Mewn rhai achosion, y data diweddaraf sydd ar gael yw cyn y pandemig. Mewn achosion eraill, nid oes modd cymharu'r data sydd ar gael ers dechrau'r pandemig oherwydd newidiadau a wnaed i wasanaethau dros y cyfnod hwn. Felly, rydym wedi gwneud y canlynol:

- dewis data a dangosyddion er mwyn helpu i annog aelodau'r bwrdd ac uwch-reolwyr drafod agweddau penodol ar ddarparu gwasanaethau orthopedig a chraffu arnynt.
- defnyddio tueddiadau a chyfrifiadau hirdymor er mwyn helpu i gyflwyno persbectif ar wasanaethau orthopedig mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol a chymryd agwedd fwy strategol yn y tymor hwy.

3 Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y tîm Getting It Right First-Time (GIRFT)[1] ei adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau orthopedig yng Nghymru gan roi adborth lleol ychwanegol i bob bwrdd iechyd. Cwblhawyd yr adroddiad lleol ar gyfer y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2022. Nod y canfyddiadau yw ategu'r adolygiadau GIRFT yn hytrach na'u dyblygu. Rydym wedi argymell bod pwyllgorau byrddau iechyd perthnasol yn cael diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion GIRFT ochr yn ochr ag adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru a'r brîff data wedi'i deilwra'n lleol.

4 Rydym wedi cyflwyno canfyddiadau'r adroddiad hwn o dan y penawdau canlynol:

- Maint y rhestr aros
- Atgyfeiriadau a galw
- Adnoddau a chapasiti
- Modelau Cleifion allanol


Mae [1]Getting It Right First-Time yn rhaglen genedlaethol gyda'r nod o wella triniaeth a gofal cleifion drwy adolygu a meincnodi.

# Adroddiad manwl

## Maint y rhestr aros

5 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos tuedd gyffredinol o ran amseroedd aros am driniaeth orthopedig yn y Bwrdd Iechyd ers 2016. Mae'n dangos darlun sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd gyda chynnydd sydyn yn y nifer o bobl sy'n aros ers dechrau'r pandemig ac, ymhlith y ffigurau hynny, bu cynnydd mawr yn y nifer o bobl sy'n aros am gyfnod hwy.


**Arddangosyn 1: Cyfanswm amseroedd aros am driniaeth orthopedig, yn ôl wythnosau'n aros – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (mis Ebrill 2016 – mis Tachwedd 2022)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

6 Mewn cymhariaeth, mae nifer y cleifion ar restrau aros am driniaeth orthopedig yn berthynol i'r boblogaeth yn amrywio ledled Cymru. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos nifer y llwybrau agored (amseroedd aros) am driniaeth orthopedig fesul 100,000 o'r boblogaeth ar ôl mis Tachwedd 2022, gyda'r Bwrdd Iechyd yn cael ffigur islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Gall yr amrywiant hwn ddigwydd oherwydd gwahaniaethau demograffig, megis oedran ac amddifadedd, dulliau gwahanol o ran atgyfeirio pobl i ofal sylfaenol, dulliau cymunedol gwahanol o ran atal, triniaeth, ac atgyfeiriad ymlaen. Fodd bynnag, mae hefyd yn debygol o ddangos bod rhai byrddau iechyd wedi gallu sicrhau dulliau cyfathrebu gwell rhwng capasiti a galw nag eraill.

**Arddangosyn 2: Cyfanswm nifer yr amseroedd aros am driniaeth orthopedig fesul 100,000 o'r boblogaeth, mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**




- Pa ffactorau sy'n cyfrannu at berfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd o ran amseroedd aros am driniaeth orthopedig yn gyffredinol o gymharu â'r boblogaeth?

7 Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei raglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru. Mae'n nodi pum uchelgais i leihau amseroedd aros yng Nghymru. Y cyntaf yw 'Erbyn diwedd 2022, ni ddylai neb aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf'. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos nifer yr amseroedd aros am fwy na blwyddyn am apwyntiad cleifion allanol cyntaf am driniaeth orthopedig. Ar ôl mis

Tachwedd 2022, roedd 245 o lwybrau cleifion yn y Bwrdd Iechyd a oedd yn aros mwy na blwyddyn. Hon yw'r lefel isaf ond un yng Nghymru.


**Arddangosyn 3: Cyfanswm nifer yr amseroedd aros am fwy na blwyddyn, yn aros am apwyntiad cleifion allanol cyntaf – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

8 Yr ail uchelgais allweddol a nodir yn y rhaglen gofal a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru yw cael gwared ar restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023. Ar ddiwedd mis Tachwedd2022, roedd tua 1,872 o lwybrau cleifion yn aros mwy na ddwy flynedd am driniaeth orthopedig yn y Bwrdd Iechyd. Hwn yw'r nifer uchaf ond tri yng Nghymru. Yn ôl ein dadansoddiad ehangach, mae'r tueddiadau ledled Cymru yn dangos bod y byrddau iechyd bellach yn dechrau canolbwyntio ar y cynnydd yn yr amseroedd aros hir iawn. Fodd bynnag, mae'n glir bod angen gwneud mwy o waith a bod capasiti cyfyngedig. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos darlun cymharol o amseroedd aros hir. Fel cyfran o gyfanswm yr amseroedd aros, mae'r gyfran sy'n aros dros ddwy flynedd yn y Bwrdd Iechyd yn unol â chyfartaledd Cymru. Mae Arddangosyn 4 yn nodi bod anghydraddoldeb ar gyfer amseroedd aros hir yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw.

**Arddangosyn 4: Canran yr amseroedd aros am driniaeth orthopedig dros 2 flynedd, yn ôl preswylfa, mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**



- A yw'r Bwrdd Iechyd yn debygol o gyrraedd y targedau a nodir yng nghynllun adfer cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal a gynlluniwyd? Os na, pryd y mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni'r cerrig milltir allweddol a nodir yn y cynllun?
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfathrebu â chleifion i ddweud wrthynt pa mor hir y mae'n debygol y byddant yn aros a beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu?
- Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i'r perygl o gael niwed oherwydd oedi?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth i ddangos a yw cleifion orthopedig yn cael niwed oherwydd oedi yn eu diagnosis a'u triniaeth? Os felly, beth mae hyn yn ei ddangos a pha gamau a gymerir i leihau'r niwed?


9 Mae **Arddangosyn 5** yn rhoi senario enghreifftiol (optimistaidd, realistig a phesimistaidd) am yr amser posibl y gallai ei gymryd i amseroedd aros am driniaeth orthopedig ddychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig[2]. Mae ein model senario yn seiliedig ar lefelau capasiti a fodolai cyn y pandemig, galw newydd (ychwanegiadau) a gweithgarwch (tynnu claf oddi ar y rhestr), cynnydd o ran galw am atgyfeiriadau yn y dyfodol, a chynnydd o ran capasiti a/neu lefelau gweithgarwch yn y dyfodol.

10 Mae'r model senario hefyd yn rhagdybio lefelau'r galw cronedig sy'n taro'r system. Galw cronedig a achosir gan lai o atgyfeiriadau na'r disgwyl ers dechrau'r pandemig. Nid yw'r model senario yn rhagdybio cynnydd yn y galw am atgyfeiriadau oherwydd newidiadau yn y boblogaeth. Mae'r senarios a gyflwynwyd gennym yn seiliedig ar ragdybiaethau a all newid dros y blynyddoedd nesaf.

11 Yn y model senario mwyaf optimistaidd, ni fyddai amseroedd aros am driniaeth orthopedig y Bwrdd Iechyd yn dychwelyd i lefelau a fodolai cyn y pandemig tan ganol 2026. Mae hyn yn seiliedig ar symud tuag at gynnydd o 15% o ran capasiti a gweithgarwch llawfeddygol orthopedig o gymharu â lefelau a fodolai cyn y pandemig. Yn amlwg, bydd yr amserlen ar gyfer adfer yn lleihau os na fydd y galw cronedig yn gwireddu, os nad yw'r galw'n cynyddu o un flwyddyn i'r llall, os bydd y Bwrdd Iechyd yn cynyddu capasiti neu gynhyrchiant mewnol, neu os bydd cyfleoedd i roi gwaith ar gontract allanol. Ni fyddai'r senarios modelu mwy realistig a phesimistaidd yn gweld nifer y rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig am flynyddoedd lawer, os o gwbl.

[2] Mae **Atodiad 1** yn nodi sut y gwnaethom fodelu'r senarios.

**Arddangosyn 5: Senarios enghreifftiol o niferoedd rhestrau aros am driniaeth orthopedig – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Stats Cymru

12 Mae **Arddangosyn 6** yn dangos maint yr amrywiad yn yr amseroedd aros am osod clun a phen-glin newydd ledled Cymru cyn y pandemig pan oedd y data hyn ar gael ddiwethaf yn 2020. Bryd hynny, roedd amseroedd aros am osod pen-glin a chlun newydd yn y Bwrdd Iechyd yn amrywio. Mae amrywiadau'n dangos gwahaniaethau rhwng capasiti gwasanaethau a rheoli rhestrau aros. Wrth i fyrddau iechyd ledled Cymru geisio lleihau rhestrau aros drwy gontract allanol, mae potensial i ehangu anghydraddoldebau mynediad at ofal ymhellach.

**Arddangosyn 6: Amseroedd aros cymedrig (mewn dyddiau) ar gyfer gosod pen-glin a chlun newydd a llawdriniaeth gywirol, 2019-20[3]**

| Bwrdd Iechyd | Sir | Pen-glin | Clun |
|---|---|---|---|
| Betsi Cadwaladr | Ynys Môn | 609.5 | 363.9 |
| | Gwynedd | 604.4 | 568.9 |
| | Conwy | 409.3 | 344.3 |
| | Sir Ddinbych | 266 | 212.7 |
| | Sir y Fflint | 232.4 | 221 |
| | Wrecsam | 236.1 | 226.6 |
| Hywel Dda | Ceredigion | 252.4 | 213.1 |
| | Sir Benfro | 246.4 | 238 |
| | Sir Gaerfyrddin | 221.1 | 180.9 |
| Bae Abertawe | Abertawe | 362.7 | 373.2 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 323.1 | 331.8 |
| Caerdydd a'r Fro | Bro Morgannwg | 229 | 216.3 |
| | Caerdydd | 241.9 | 210.1 |
| Powys | Powys | 154.2 | 147.9 |
| Aneurin Bevan | Caerffili | 185.8 | 165.2 |
| | Blaenau Gwent | 200.2 | 157.1 |
| | Torfaen | 182.1 | 164.7 |
| | Sir Fynwy | 180.2 | 160.2 |
| | Casnewydd | 196.6 | 164.1 |
| Cwm Taf Morgannwg | Rhondda Cynon Taf | 177.8 | 150.8 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 317.6 | 294.9 |
| | Merthyr Tudful | 175.3 | 161.1 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Mapiau Iechyd Cymru

[3] Allwedd Tabl: Llai na 36 wythnos 26-36 wythnos Mwy na 36 wythnos

**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**




- A yw'r Bwrdd iechyd wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad diweddar o amrywiadau yn yr amseroedd amser yn ôl y math o lawdriniaeth a safle'r ysbyty? Os felly, beth mae'r dadansoddiad yn ei ddangos?
- Pa gamau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i leihau'r amrywiadau yn yr amseroedd aros ar gyfer yr un driniaeth rhwng gwahanol ysbytai?

# Atgyfeiriadau a galw

13 Mae **Arddangosyn 7** yn dangos tuedd o ran atgyfeiriadau i wasanaethau orthopedig gan y Bwrdd Iechyd dros amser a'r gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau yn ystod y pandemig. Mae nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau orthopedig gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn is na'r lefelau atgyfeirio cyfartalog cyn y pandemig[4].

**Arddangosyn 7: Tuedd o ran atgyfeiriadau i'r rhestr aros am driniaeth orthopedig, rhwng mis Ebrill 2012 a mis Tachwedd 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Stats Cymru

[4] Yn seiliedig ar gyfraddau atgyfeirio cyfartalog ar gyfer 2019-20

14 Mae'r lefelau is o atgyfeiriadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn awgrymu y gallai fod angen triniaeth o hyd ar gleifion a fyddai wedi cael eu hatgyfeirio fel arfer. Mae ein cyfrifiadau'n awgrymu bod tua 135,000 o atgyfeiriadau cudd neu 'coll' i wasanaethau orthopedig ledled Cymru. Mae'r niferoedd yn amrywio cryn dipyn rhwng byrddau iechyd, a'r Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfran uchaf ond un (**Arddangosyn 8**). Bydd effaith y galw cudd hwn yn dychwelyd i'r system a'r galw am atgyfeiriadau yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig yn fwy cyffredinol yn gwneud y sefyllfa heriol o ran adfer rhestrau aros yn fwy brawychus fyth.

**Arddangosyn 8: Nifer y 'cleifion coll' a allai fod yn gudd rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022**

| Bwrdd Iechyd | Atgyfeiriadau 'coll' a allai fod yn gudd | Canran cyfanswm Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 42,438 | 32% |
| Hywel Dda | 22,860 | 17% |
| Cwm Taf Morgannwg | 18,294 | 14% |
| Caerdydd a'r Fro | 17,576 | 13% |
| Betsi Cadwaladr | 15,987 | 12% |
| Bae Abertawe | 13,046 | 10% |
| Powys | 4,204 | 3% |
| **Cyfanswm** | **134,406** | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru


**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**



- I ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld, neu'n disgwyl gweld, y galw cudd yn dychwelyd? Os na ddisgwylir iddo ddychwelyd, a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod i ble aeth y galw?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn deall yn iawn y galw am wasanaethau orthopedig yn awr ac yn y dyfodol?
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau mai dim ond atgyfeiriadau priodol sy'n cael eu gwneud i wasanaethau gofal eilaidd?
- A yw dulliau atal a thriniaeth gymunedol megis Gwasanaethau Asesu a Thriniaeth Cyhyrysgerbydol Clinigol yn gweithredu'n effeithiol, ac a oes cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau cymunedol ymhellach?

15 Mae **Arddangosyn 9** yn dangos tueddiadau o un mis i'r llall o ran amseroedd aros am driniaeth orthopedig, h.y., a yw'r rhestr aros wedi cynyddu neu leihau bob mis ac i ba raddau. Yn ddiweddar, mae rhai byrddau iechyd ledled Cymru wedi llwyddo i atal y cynnydd yn yr amseroedd aros mewn rhai misoedd, naill ai drwy ddefnyddio capasiti ychwanegol tymor byr i ateb y galw neu drwy ymarferion dilysu i lanhau rhestrau aros. Fodd bynnag, nid yw'r lleihad yn yr amseroedd hyn wedi parhau. Gydag atgyfeiriadau'n dechrau dychwelyd i lefelau a fodolai cyn y pandemig, mae'n dangos y broblem y mae byrddau iechyd yn ei chael i gydbwyso capasiti i ateb lefelau'r galw.

**Arddangosyn 9: Newidiadau yn nifer y bobl sy'n aros am driniaeth orthopedig o un mis i'r llall – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru


**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**



- Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i atal y cynnydd yn nifer y bobl sy'n aros?
- I ba raddau y mae dilysu rhestrau wedi bod yn brif ffactor wrth leihau rhestrau aros? I ba raddau y mae tynnu claf oddi ar y rhestr oherwydd dilysu o ganlyniad i faterion gweinyddol? Os felly, pa wersi a gaiff eu dysgu?
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod capasiti gwasanaethau orthopedig dewisol yn cael ei ddiogelu rhag gofal heb ei drefnu a phwysau ehangach?

16 Mae **Arddangosyn 10** yn rhoi tuedd gyfartalog hanesyddol gymharol o ran cyfraddau gosod clun newydd neu lawdriniaeth gywirol dros dair blynedd rhwng 2017 a 2020 fesul 100,000 o’r boblogaeth. Er bod gwahaniaethau demograffig ym mhob bwrdd iechyd, mae’r arddangosyn yn dangos amrywiad eang iawn sy’n annhebygol oherwydd demograffeg yn unig.

**Arddangosyn 10: Cyfraddau derbyn ar gyfer gosod clun newydd/llawdriniaeth gywirol fesul 100,000 o’r boblogaeth yn seiliedig ar gyfartaledd dros dair blynedd, 2017-18 i 2019-20**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Mapiau Iechyd Cymru

**Cwestiynau i aelodau’r Bwrdd**




- A yw’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad i ddeall a oes cyfradd uwch neu is o lawdriniaethau, megis gosod clun a phen-glin newydd, nag a ddisgwylid ar gyfer y boblogaeth leol? Os felly, beth mae'n ei ddangos ac a oes cyfleoedd i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn deall a yw'r gweithdrefnau'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleifion?

## Adnoddau a chapasiti

17 Mae **Arddangosyn 11** yn rhoi persbectif tymor hir ar wariant gwirioneddol[5] ar wasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd, a'r gwariant wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant (h.y., termau real). Yn gyffredinol, a ledled Cymru, mae'r gwariant 'termau real' ar wasanaethau orthopedig cyn y pandemig wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth hyd at effaith y pandemig.

18 Mae'r galw am wasanaethau yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, gyda nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu tua 19% rhwng 2009 a 2020. Disgwylir i'r duedd hon barhau. Rhwng 2020 a 2032 ledled Cymru, rhagwelir y bydd nifer y bobl 75 oed a throsodd yn cynyddu 27% eto, a allai greu straen ychwanegol ar wasanaethau orthopedig sy'n cael digon o drafferth yn barod i adfer.

**Arddangosyn 11: Gwariant gwirioneddol a gwariant termau real ar wasanaethau orthopedig yn erbyn proffil poblogaeth sy'n heneiddio – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru i Stats Cymru – Cyllideb rhaglen iechyd ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

[5] Yn seiliedig ar wariant Cyllideb Rhaglen y GIG ar gyfer problemau system cyhyrysgerbydol (ac eithrio trawma)


**Cwestiynau awgrymedig i aelodau'r bwrdd**



- Os bydd y boblogaeth hŷn yn parhau i gynyddu, ond nad yw gwariant mewn termau real ar wasanaethau orthopedig yn parhau i gynyddu, a all y Bwrdd Iechyd sicrhau y bydd modelau gwasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy?

19 Mae **Arddangosyn 12** ac **Arddangosyn 13** yn darparu data tueddiadau a chymharol ar nifer y gwelyau orthopedig sydd ar gael. Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r niferoedd uchaf o welyau fesul 1,000 o gyfnodau y mae claf yn eu treulio dan ofal un meddyg ymgynghorol. O ystyried y cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau orthopedig oherwydd poblogaeth oedrannus gynyddol, bydd angen i fyrddau iechyd asesu a allant ateb y galw gyda nifer y gwelyau presennol. Bydd y graddau y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd o ran defnyddio gwelyau a'r graddau y gellir diogelu gwelyau orthopedig dewisol rhag pwysau gofal heb ei drefnu ehangach yn pennu a ellir ateb y galw yn awr ac yn y dyfodol gyda nifer y gwelyau presennol.

**Arddangosyn 12: Gwelyau trawma ac orthopedig sydd ar gael – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru


**Arddangosyn 13: Cymhariaeth o’r gwelyau trawma ac orthopedig fesul 1,000 o gyfnodau y mae claf yn eu treulio dan ofal un meddyg ymgynghorol 2019-20.**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Stats Cymru a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

20 Mae **Arddangosyn 14** yn rhoi persbectif cymharol o'r gweithlu meddygol. Mae gan y Bwrdd Iechyd y nifer isaf ond dau o staff meddygol fesul 1,000 o gyfnodau y mae claf yn eu treulio dan ofal un meddyg ymgynghorol. Mae'n bosibl bod yr amrywiad sydd i’w weld ledled Cymru o ganlyniad i’r gwahaniaethau gweithredol mewn ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, mae angen ystyried y lefelau staffio gorau posibl, effeithlonrwydd, cynhyrchiant, a modelau llwybrau gwahanol sy'n manteisio ar egwyddorion gofal iechyd darbodus i'r eithaf. Fel rhan o hyn, byddem yn disgwyl gweld byrddau iechyd yn cynllunio ar sail ranbarthol i ddatblygu capasiti rhanbarthol o gyfaint uchel a chymhlethdod isel i wella cynhyrchiant ac adolygu cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol fel rhan o’r broses o ailgynllunio llwybrau.

**Arddangosyn 14: Cymhariaeth o'r gweithlu meddygol trawma ac orthopedig (WTE) fesul 1,000 o gyfnodau y mae claf yn eu treulio dan ofal un meddyg ymgynghorol 2019-20.**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Stats Cymru a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

**Cwestiynau i aelodau'r Bwrdd**




- I ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd y gallu i ateb y galw am wasanaethau orthopedig ar hyn o bryd? Ble mae'r bylchau o ran capasiti?
- Beth yw'r risgiau a'r heriau y mae'r gweithlu yn eu hwynebu?
- Sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio fesul rhanbarth i greu cyfaint uchel a chymhlethdod isel?
- Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i greu mwy o effeithlonrwydd mewn llwybrau orthopedig?

21 Yn aml mae angen profion diagnostig ar bobl â chyflyrau cyhyrysgerbydol er mwyn egluro achos a graddau eu problemau. Mae targedau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai cleifion aros am fwy nag wyth wythnos am brofion diagnostig. Mae gan y Bwrdd Iechyd amseroedd aros cymharol hirach am brofion diagnostig. Mae oedi wrth gynnal profion diagnostig yn debygol o effeithio ar brydlondeb cyffredinol triniaeth orthopedig. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth eang yn nifer yr achosion o

oedi a chyfran yr oedi o ran mynediad i wasanaethau radioleg ledled Cymru (**Arddangosion 15 ac 16**).


**Arddangosyn 15: Nifer a chanran yr amseroedd aros am wasanaethau radioleg a atgyfeiriwyd gan feddyg ymgynghorol sy'n aros am wyth wythnos neu fwy, mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

Noder: Mae ceisiadau radioleg a gyfeiriwyd gan feddygon ymgynghorol ym Mhowys yn rhy isel i'w dangos yn y siart.


**Arddangosyn 16: Nifer a chanran yr amseroedd aros am wasanaethau radioleg a atgyfeiriwyd gan feddyg teulu sy'n aros am wyth wythnos neu fwy, mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

22 Yn aml, bydd angen ffisiotherapi ar bobl gyda chyflyrau cyhyrysgerbydol hefyd. Mae **Arddangosyn 17** yn dangos cyfran y bobl sy'n aros i gael ffisiotherapi, sy'n aros y tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru, sef 14 wythnos. Y Bwrdd Iechyd sydd â'r lefel uchaf o gleifion yn aros dros 14 wythnos.

**Arddangosyn 17: Canran yr amseroedd aros dros 14 wythnos am ffisiotherapi, mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Stats Cymru

**Cwestiynau i aelodau'r Bwrdd**



- I ba raddau y mae capasiti radioleg neu ffisiotherapi yn cael effaith ar brydlondeb y llwybr orthopedig cyffredinol?
- A oes cynlluniau wedi'u costio i gyd-fynd â'r galw a'r capasiti yn yr ardaloedd hynny os oes angen?


# Modelau Cleifion allanol

23 Mae byrddau iechyd yn rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith. Arweiniodd y pandemig at fwy o weithio 'wedi'i hwyluso drwy dechnolegau digidol'. Helpodd hyn i alluogi parhad rhai gwasanaethau ar adegau lle nad oedd apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael. Mae'r byrddau iechyd hefyd wrthi'n rhoi llwybrau cleifion allanol, neu 'sylw yn ôl symptomau (SOS)' ac 'apwyntiadau dilynol ar gais y claf (PIFU)' ar

waith. Nod y dulliau hyn yw lleihau apwyntiadau dilynol diangen i gleifion allanol. Y bwriad yw gwella effeithlonrwydd, lleihau siwrneiau diangen i gleifion, galluogi cleifion i reoli eu cyflwr eu hunain a rhoi mynediad iddynt pan fydd ei angen arnynt.

24 Mae **Arddangosyn 18 ac 19** yn dangos y duedd yn y niferoedd sy'n dilyn llwybrau 'sylw yn ôl symptomau' ac 'apwyntiadau dilynol ar gais y claf' newydd. Yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd yng Nghymru, rydym yn gweld cynnydd yn y defnydd o'r llwybrau newydd hyn ond, o gymharu â niferoedd cyffredinol yr apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, mae'r dulliau newydd hyn yn lleiafrif o hyd. O ran y Bwrdd Iechyd, gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth fabwysiadu'r ddwy fenter, yn enwedig y llwybrau SOS. Y Bwrdd Iechyd sy'n defnyddio'r llwybrau PIFU fwyaf yng Nghymru, er bod y niferoedd yn aros yn gymharol isel.

**Arddangosyn 18: Tuedd o ran mabwysiadu'r llwybrau newydd Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf a Sylw yn ôl Symptomau bob mis – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (mis Medi 2020 – mis Gorffennaf 2022)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**Arddangosyn 19: Nifer cyfartalog y llwybrau Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf a Sylw yn ôl Symptomau bob mis o'u cymharu â nifer cyfartalog apwyntiadau dilynol cleifion allanol (yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch 2018-19)[6]**


| Bwrdd Iechyd | Apwyntiadau dilynol cleifion allanol bob mis (18/19) ar gyfartaledd | Llwybrau 'Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf' bob mis (21/22) | Llwybrau 'Sylw yn ôl symptomau' bob mis (21/22 ar gyfartaledd) |
|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 5283 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Aneurin Bevan | 5840 | 31 | 607 |
| Betsi Cadwaladr | 4352 | 15 | 128 |
| Caerdydd a'r Fro | 4317 | 0 | 1275 |
| Cwm Taf | 2529 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Cwm Taf Morgannwg | Ddim yn berthnasol | 3 | 15 |
| Hywel Dda | 3428 | 53 | 336 |
| Powys | 98 | 11 | 259 |
| Bae Abertawe | Ddim yn berthnasol | 38 | 507 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

25 Mae **Arddangosion 20 a 21** yn rhoi cymhariaeth o nifer y llwybrau 'sylw yn ôl symptomau' ac 'apwyntiadau dilynol ar gais y claf' newydd. Niferoedd gwirioneddol yw'r rhain ac nid ydynt wedi'u haddasu na'u pwysoli ar gyfer maint y sefydliad.


[6] Nid yw cyfanswm lefelau gweithgarwch dilynol cleifion allanol wedi'u nodi'n gyhoeddus ar StatsCymru ers 2018-19

**Arddangosyn 20: Cymhariaeth o gyfanswm llwybrau apwyntiadau dilynol ar gais cleifion Trawma ac Orthopedig newydd fesul Bwrdd Iechyd, y cyfnod diweddaraf o 12 mis (mis Awst 2021 i fis Gorffennaf 2022)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Arddangosyn 21: Cymhariaeth o gyfanswm Llwybrau Sylw yn ôl Symptomau Trawma ac Orthopedig newydd fesul Bwrdd Iechyd, y cyfnod diweddaraf o 12 mis (mis Awst 2021 i fis Gorffennaf 2022)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**Cwestiynau i aelodau'r Bwrdd**



- A yw'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu llwybrau Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf a Sylw yn ôl Symptomau yn ddigon cyflym? Os na, beth yw'r rhwystrau?
- A yw cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yn cael eu hadolygu i addasu i fodelau cleifion allanol newydd ac i wneud y defnydd gorau o'u hamser?
- I ba raddau y mae apwyntiadau cleifion allanol digidol/rhithwir yn cael eu defnyddio? A yw hyn yn darparu gwasanaeth gwell a mwy effeithlon?

# Atodiad 1

## Modelu senarios

Mae ein gwaith modelu senarios yn **Arddangosyn 5** yn tynnu ar rywfaint o waith modelu cychwynnol a gynhaliwyd gan Uned Gyflawni'r GIG. Y cyfrifiad a ddefnyddiwyd gennym, yn dilyn gwaith yr Uned Gyflawni, oedd:

- Cyfrifir y cleifion a gaiff eu tynnu oddi ar y rhestr drwy gymryd nifer y cleifion sy'n aros dros bedair wythnos (h.y., nid ydynt yn gleifion newydd y mis hwnnw) a thynnu hwnnw o gyfanswm y rhestr aros yn y mis blaenorol. Mae hyn yn rhoi dirprwy ar gyfer nifer y cleifion a gaiff eu tynnu oddi ar y rhestr o un mis i'r llall.
- Ychwanegiadau yw'r bobl a nodwyd yn y ffigurau misol sydd wedi bod yn aros llai na phedair wythnos – sy'n dangos eu bod wedi'u hychwanegu at y rhestr aros yn ystod y mis diwethaf. Er bod ychwanegiadau misol yn rhoi mesur rhesymol o ychwanegiadau, mae'n bosibl bod rhywfaint o'r rheini sydd wedi'u cynnwys eisoes wedi bod yn aros ond bod eu 'cloc' wedi'i ailosod am ryw reswm, er enghraifft am beidio â dod i apwyntiadau lluosog. Mae'n bosibl hefyd na fydd rhai pobl yn cael eu cyfrif pe baent yn cael eu hychwanegu at y rhestr a'u tynnu oddi arni cyn i'r data gael eu casglu ar ddiwedd pob mis.

Mae ein gwaith modelu yn darparu senarios ar gyfer yr amser y gallai ei gymryd i GIG Cymru ddychwelyd y rhestrau aros orthopedig i lefelau mis Mawrth 2020 gan ddefnyddio tair senario: rhesymol, pesimistaidd ac optimistaidd (**Arddangosyn 5**). Rhoddir ystyriaeth i'r galw cronedig posibl (**gweler Arddangosyn 8**) drwy wasgaru cyfrannau gwahanol yn gyfartal o'r 135,000 o atgyfeiriadau posibl a gollwyd rhwng 2022 a 2024. Roedd y cyfrannau hynny'n amrywio yn dibynnu ar senario resymol, besimistaidd neu optimistaidd. Mae **Arddangosyn 22** yn nodi ein rhagdybiaethau modelu.

**Arddangosyn 22: Rhagdybiaethau modelu rhestrau aros**

| Rhagdybiaethau | Rhesymol | Pesimistaidd | Optimistaidd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau 2022-2025 o gymharu â 2019-20 | 87.5% | 90% | 858% |
| Cynnydd blynyddol mewn ychwanegiadau o 2025 ymlaen | 99% | 100% | 98% |
| Galw am atgyfeirio 'coll' cudd yn cyflwyno | 5% | 10% | 0% |
| Gweithgarwch/tynnu claf oddi ar y rhestr o gymharu â lefelau 2019-20 yn ystod: | 80% | 80% | 80% |
| 2022-23 | 90% | 85% | 95% |
| 2023-24 | 100% | 95% | 105% |
| 2024-25 | 102.5% | 100% | 105% |
| 2025 ymlaen | | | |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Mae ein dadansoddiad yn amlygu maint yr her bosibl a’r amser y gallai ei gymryd i glirio’r ôl-groniad o bobl sy’n aros am driniaeth. Mae'r senarios a gyflwynwyd gennym yn yr adroddiad yn seiliedig ar ragdybiaethau a all newid dros y blynyddoedd nesaf.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.